# Cyfrifo cost gwaith celf graffiti

## Her grŵp: Tua faint fyddai'n ei gostio i baentio'r gwaith celf mwyaf ar long y 'Duke of Lancaster'?

Mae creu gwaith celf yn gostus. Yn eich grŵp, defnyddiwch y wybodaeth isod i'ch helpu i gyfrifo costau paentio'r darn o waith celf mwyaf ar y llong.

- Mae can cyffredin, 11 owns hylifol o baent chwistrell yn gorchuddio arwynebedd rhwng 10-12 troedfedd sgwâr.
- Mae'r paent chwistrell o ansawdd da rhataf sydd ar gael ar-lein yn costio £6.70 y can. Fodd bynnag, mae cynnig arbennig sy'n golygu y gallwch brynu 9 can a chael y $10^{fed}$ am ddim. Mae pob can yn cynnwys 400ml o baent.
- Mae'r gwaith celf mwyaf ar long y 'Duke of Lancaster' yn mesur 18m x 13m. Faint fyddai'n ei gostio i baentio hwn?

Pa gyfrifiadau sy'n rhaid i chi eu gwneud er mwyn dod o hyd i gost y gwaith hwn? (*Cliw: mae angen trosi'r mesuriadau o imperial i fetrig er mwyn gwneud y cyfrifiadau. Ysgrifennwch y camau sydd eu hangen ar gyfer y cyfrifiad hwn isod cyn i chi gychwyn).*

Rydym yn rhagweld y bydd yn costio tua £_____ i greu'r gwaith celf.

Mae'r cwestiwn yn gofyn am ateb bras oherwydd .....